Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bydd y lleoliad yn cynnig cyfle i gael cipolwg ar weithio mewn tîm iechyd cyhoeddus, drwy ddatblygu sgiliau ymarferol yn ogystal â chael gwybodaeth ddamcaniaethol am iechyd cyhoeddus.

Bydd y lleoliad yn gyfle i'r unigolyn gael profiad o weithio mewn partneriaeth a sicrhau dealltwriaeth well o'r amrywiaeth o ddulliau i wella iechyd y boblogaeth.

Bydd hefyd yn cynnig profiad gwaith mewn swyddfa a gefnogir gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gallu darparu cyfoeth o brofiadau o wahanol bynciau ym maes hybu iechyd.

Bydd y tasgau yn ystod y lleoliadau'n dibynnu ar y rôl sy'n ofynnol gan y sawl sy'n ymgymryd â'r gwaith ar leoliad.

Mae'r swyddi yn y tîm yn cynnwys Meddygon Ymgynghorol, Penaethiaid, Uwch Ymarferwyr, Ymarferwyr a chymorth gweinyddol.

Lleoliadau gwaith sydd ar gael: 1+

Bydd y lleoliadau ar gael yn ystod: 3 Mehefin – 30 Awst 2019

Hyd y lleoliadau: Byddwn yn ystyried ceisiadau o 1 diwrnod i 1 wythnos

Oriau: 4-5 y dydd

Lleoliad: Dewis o'r Wyddgrug, Wrecsam neu Fangor

Parcio ar gael yn y swyddfa: Ni ellir gwarantu lle

Gofynion teithio yn ystod y lleoliad: Oes, yn dibynnu ar y rôl